# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD MERCHER, 18 MEDI 2019

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings a Gareth Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Alun Merfyn Roberts (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu

• Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygwyd bod y drosedd wedi digwydd ers i'r ymgeisydd fod yn ei arddegau. Ategywd bod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithio yn y maes gofal ers dros 12 mlynedd a bellach eisiau newid cyfeiriad.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn Chwefror 2005 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Ynys Môn ar un cyhuddiad o fwrgleriaeth a dwyn o eiddo preswyl, yn groes i Adran 9(1) Ddeddf Lladrata 1968. Cafodd orchymyn goruchwyliaeth am 18mis. Yn ddiweddarach yn Mai 2005, derbyniodd ddwy gollfarn gan Lys Ynadon Ynys Môn am ddwyn gan berson, eto, yn groes i Adran 1 Deddf Lladrata 1968. Ar gyfer y collfarnau cafodd orchymyn goruchwyliaeth, gorchymyn i dalu iawndal a chostau. Cafodd y ddau orchymyn goruchwyliaeth eu diddymu yn gynnar ar sail ymddygiad da.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, bwrgleriaeth a lladrata.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod y troseddau yn ymwneud a throseddau o anonestrwydd. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 2006, dros 13 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## 6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn 1978 ac Ebrill 1979 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarnau gan Lys Ynadon Caernarfon am ddwyn o siop yn groes i Adran 1 Ddeddf Lladrata 1968. Yn Ionawr 1982, derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon am ddwy drosedd o gyflawni a meddu cyffuriau rheoledig, yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Derbyniodd ddirwy o £70 a gorchymyn i dalu costau o £3. Yn ddiweddarach yn Awst 1984 derbyniodd gollfarn arall am feddu cyffuriau

rheoledig lle derbyniodd dirwy o £50. Ym Mawrth 1985 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o drin eiddo wedi ei ddwyn yn groes i Ddeddf Lladrata 1968 (cafodd orchymyn i wneud 240 awr o wasanaeth cymunedol). Yn 1986 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am feddu cyffuriau rheoledig a chafodd ddedfryd o garchar am 28 diwrnod. Yn Nhachwedd 1997 derbyniodd gollfarnau am feddu cyffuriau rheoledig. Ers Tachwedd 1997 nid oedd gan yr ymgeisydd gollfarnau pellach - nodwyd bod ganddo drwydded yrru lan.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, bwrgleriaeth a lladrata.

Ystyriwyd paragraff 9.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau sydd yn ymwneud a chyffuriau gyda chymal 9.1 o'r polisi yn nodi bod unrhyw drosedd sydd yn ymwneud a chyffuriau yn fater difrifol. Mae paragraff 9.2 yn nodi y byddai cais yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn sy'n gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau, a bod y gollfarn yn llai na 5 mlynedd o leiaf. Nodir paragraff 9.3 y bydd cais yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn sy'n gysylltiedig â bod a chyffuriau yn eu meddiant, a bod y gollfarn yn llai na 5 mlynedd o leiaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod y troseddau yn ymwneud a throseddau o anonestrwydd. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 1985, dros 34 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd y troseddau oedd yn ymwneud a chyffuriau hefyd yn rai hanesyddol, y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 1997 (dros 22 mlynedd yn ôl) – tu hwnt i 'r cyfnod 5 mlynedd, nid oedd paragraffau 9.1, 9.2 a 9.3 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## 7. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas

y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawiad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn 1976 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Nant Conwy am feddu arf bygythiol mewn man cyhoeddus ac am achosi gwir newid corfforol yn groes i Ddeddf Atal Trosedd 1953 a Deddf Troseddau yn erbyn y Person 186. Yn Mehefin 1978, derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon a Gwyrfai am gyfres o gollfarnau - gwir niwed corfforol, gwrthod ymadael ag adeilad trwyddedig a dau gyfrif o ddifrod troseddol. Derbyniodd ddirwyon o £80 a thalu iawndal o £9. Yn Hydref 1985 cafodd yr ymgeisydd yn euog ar ddau gyhuddiad o ddifrod troseddol yn groes i'r Ddeddf Difrod Troseddol 1971 - derbyniodd ddirwy o £75 a gorchymyn i dalu iawndal o £54.07. Yn Rhagfyr 1987 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am ddau drosedd o rwystro'r Heddlu yn groes i Ddeddf Heddlu 1964 a dirfod troseddol. Derbyniodd ddirwy o £75, gorchymyn i dalu costau o £15 a dirwy o £26.45. Yn Nhachwedd 2005 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd ar ddau achos o yrru cerbyd heb yswiriant a gyrru cerbyd o dan ddylanwad alcohol sydd yn groes i Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988.Cafodd ddirwy o £100, derbyn pwyntiau ar ei drwydded gyrru a gwaharddiad rhag gyrru am 56 diwrnod.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Fe nodir ym mharagraffau 6.3 - 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae ymosodiad cyffredin, meddu ar arf a difrod troseddol yn cael ei cynnwys yn y rhestr. Nodi'r ym mharagraff 6.6 y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod nifer o'r troseddau yn ymwneud a throseddau o drais, fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 1987, dros 31 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 6.6 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod y drosedd oedd yn ymwneud ag yfed a gyrru hefyd yn un hanesyddol, ynghyd a'r gwaharddiad am yrru. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 2005, dros 13 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraff 11.1 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.35 y.h.

**CADEIRYDD**